## SWYDD-DDISGRIFIAD

| | |
|---|---|
| Teitl y Swydd | Prif Weithredwr a Phennaeth Gwasanaeth Cyflogedig |
| Adran | Y Prif Weithredwr |
| Lleoliad | Y Ganolfan Ddinesig |
| Crynodeb o'r Swydd | Rheolaeth gyffredinol am faterion corfforaethol, strategol ac ariannol gan gynnwys cyfrifoldeb am weithrediad y Cyngor (ac am reolaeth gyffredinol yr holl swyddogion). |
| Amcanion Byrdymor<br><br>Amcanion Hirdymor | |
| Y Prif Dasgau | Meddu ar gyfrifoldeb cyffredinol am Wasanaethau'r Cyngor fel Pennaeth Gwasanaeth Cyflogedig. Mae hyn yn cynnwys (ond heb fod yn gyfyngedig i) weithgareddau'r Cyngor o ran: Perfformiad, Cyfeiriad Strategol, Rhaglenni Newid, Ffocws ar y Dyfodol (Cynllun Corfforaethol), Rhaglenni Gwelliant Parhaus, Rhaglenni Arbed Costau.<br><br>Darparu cyngor proffesiynol a diduedd i bob parti yn y broses benderfynu, a gwasanaethu'r Cyngor cyfan ar sail wleidyddol niwtral.<br><br>Ynghyd â'r Swyddog Monitro, meddu ar gyfrifoldeb am system gofnodi holl benderfyniadau'r Cyngor.<br><br>Ynghyd â'r Swyddog Adran 151, cyflwyno cyllideb gytbwys i'r Cyngor bob blwyddyn.<br><br>Ymgymryd â chyfrifoldebau statudol y "Swyddog Priodol" at ddibenion gweinyddiaeth ddemocrataidd y Cyngor ac eithrio pan fo darpariaethau'r gyfraith, y cynllun dirprwyo neu rannau eraill o'r Cyfansoddiad yn nodi y dylai'r swyddogaeth gael ei chyflawni gan swyddog arall.<br><br>Gweithredu fel Swyddog Cofrestru Etholiadol a Swyddog Canlyniadau neu Swyddog Canlyniadau Dros Dro y Cyngor ar gyfer pob etholiad.<br><br>Cynrychioli'r Cyngor cyfan ar gyrff partneriaethol ac allanol - fel sy'n ofynnol yn ôl statud neu'r Cyngor.<br><br>Gwasanaethu'r Cyngor cyfan ar sail wleidyddol niwtral.<br><br>Mae gan y Prif Weithredwr gyfrifoldeb fel rheolwr llinell uniongyrchol am y Prif Swyddog (Dysgu), y Prif Swyddog (Gwasanaethau Cymdeithasol), y Dirprwy Brif Weithredwr ac unrhyw strwythur arall a bennir gan y Cyngor ar unrhyw adeg. |

# Manyleb y Person

## Y Prif Weithredwr

Mae'r priodoleddau canlynol yn cynrychioli'r ystod o sgiliau, galluoedd a phrofiadau ac ati sy'n berthnasol i'r swydd hon. Disgwylir i ymgeiswyr fodloni'r priodoleddau y nodwyd eu bod yn hanfodol (√).

| Priodoleddau | Gofynion | Hanfodol | Dull Gwerthuso/Profi |
|---|---|---|---|
| **Cymwysterau, Addysg a Hyfforddiant** | • Addysgwyd i lefel gradd.<br>• Cymwysterau neu brofiadau i lefel sy'n dangos tystiolaeth o graffter yn y maes busnes a chyllid. | √ | Tystysgrifau Cymhwyster.<br>Y broses ymgeisio a dethol. |
| **Gwybodaeth a Phrofiad** | • Hanes sylweddol o arweinyddiaeth a rheolaeth strategol mewn sefydliad amlddisgyblaethol. | √ | Y broses ymgeisio a dethol. |
| | • Profiad helaeth o ddatblygu a throsi strategaethau a pholisïau i gynlluniau gweithredu effeithiol. | √ | |
| | • Profiad o'r broses benderfynu ddemocrataidd ac o gynnal perthnasoedd gwaith cynhyrchiol ag aelodau etholedig. | √ | |
| | • Dealltwriaeth gynhwysfawr o'r gwasanaethau a ddarperir ar ran llywodraeth leol. | √ | |
| | • Profiad o arwain gweithlu mawr a gyrru diwylliant o reoli perfformiad. | √ | |
| | • Profiad o arwain newid sefydliadol a/neu ddiwylliannol. | √ | |
| | • Profiad o weithio a llwyddo o fewn trefniadau partneriaethol. | √ | |
| | • Hanes llwyddiannus o ymgysylltu â dinasyddion. | √ | |
| **Sgiliau a Rhinweddau Personol** | • Meddu ar effaith bersonol gref ac ar natur agos-atoch-chi a chadarn. | √ | Y broses ymgeisio a dethol. |
| | • Sgiliau llefaru, ysgrifennu a chyflwyno rhagorol. | √ | |
| | • Tystiolaeth o lwyddiant wrth hyrwyddo a gwella enw da sefydliad. | √ | |

| Priodoleddau | Gofynion | Hanfodol | Dull Gwerthuso/Profi |
|---|---|---|---|
| | • Y gallu i wella ac arwain gwaith corfforaethol yn effeithiol.<br>• Ymrwymiad personol cryf i ddiwylliant sy'n hyrwyddo perfformiad uchel.<br>• Ymrwymiad amlwg i gyfleoedd cyfartal, parch, didwylledd a thegwch.<br>• Y gallu i gyfathrebu trwy gyfrwng y Gymraeg. | √<br>√ | |